Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 21.02.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLE: Stondinau Eisteddfod 2023 – archebion ar agor 1 Mawrth 2023

Bydd archebion ar gyfer stondinau yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 yn agor ar 1 Mawrth 2023. Bydd yr Eisteddfod yn cynnal dwy sesiwn ar-lein i helpu gydag unrhyw gwestiynau am archebu stondin ar 27 Chwefror 2023 (12:30pm a 6:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://eisteddfod.cymru/2023-stondinau

# DIGWYDDIAD: Peidiwch â cholli'r cyfle! Gweminar Defnyddio Technoleg ar gyfer Effeithlonrwydd Busnes, 28 Chwefror 2023

Peidwich â cholli gweminar Busnes@gwynedd.llyw.cymru Dydd Mawrth nesaf (28 Chwefror 2023, 9:30am-11:00am) yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio technoleg ar gyfer effeithlonrwydd busnes a chynyddu refeniw. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3YuiCd2

# RECRIWTIO: Os ydych chi'n chwilio am staff, dyma'ch cyfle!

Yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, bydd Gwaith Gwynedd yn cynnal ffeiriau swyddi yn Nolgellau, Bangor, Porthmadog, Tywyn ac Abermaw rhwng canol mis Mawrth a dechrau Mai.

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar: 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Mae Gwaith Gwynedd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi pobl i weithio – cadwch lygad allan am eu hysbysebion yn hyrwyddo'r help ar gael, sydd nawr yn cael eu dangos mewn sinemâu ledled Gwynedd.

# YMGYRCH: Diwrnod Mamiaith Rhyngwladol 2023

Bydd Diwrnod Mamiaith Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig yn cael ei gynnal ar 21 Chwefror 2023. Chwaraewch eich rhan drwy ddathlu'r Gymraeg yn eich busnes. Am help a syniadau – gan gynnwys cyfieithu am ddim a chyfle i gael eich defnydd o'r iaith wedi ei chydnabod yn swyddogol – ewch i dudalennau Helo Blod ar Busnes Cymru a thudalennau Comisiynydd y Gymraeg drwy fynd i:

https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy

https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/busnesau-ac-elusennau/cynnig-cymraeg

## ADNODDAU: Twristiaeth Gynaliadwy Cymru

Mae Pecynnau Adnoddau Twristiaeth Busnes Cymru ar gael i helpu busnesau wella eu cynaliadwyedd, gan gynnwys awgrymiadau gwych a chyngor ariannol sy'n cwmpasu dŵr; gwastraff; teithio; ynni a chadwyn gyflenwi. I ddarllen mwy ewch i:

https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/twristiaeth-gynaliadwy-cymru

## ARIANNU: Cystadleuaeth benthyciadau arloesi economi'r dyfodol – Rownd 8

Mae Innovate UK yn cynnig hyd at £25 miliwn mewn benthyciadau i fentrau micro, a bach a chanolig eu maint (BBaCh). Mae benthyciadau ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu cyfnod hwyr arloesol sydd â'r potensial gorau ar gyfer y dyfodol. Y dyddiad cau i wneud cais yw 8 Mawrth 2023. Am fwy o wybodaeth, ac i ymgeisio, ewch i:

http://bit.ly/3IfdXoX

## DIGWYDDIAD: Clystyrau Darbodus Toyota – Digwyddiad Rhwydweithio 23 Mawrth 2023

Mae'r rhaglen Clystyrau Darbodus Toyota, sy'n cael ei gyflawni gan Llywodraeth Cymru a Chanolfan Rheoli Darbodus Toyota, Glannau Dyfrdwy, yn cynnig cyfle i fusnesau dderbyn cefnogaeth wedi'i hariannu'n rhannol i wella cynhyrchiant trwy egwyddorion rheoli darbodus. Bydd digwyddiad rhwydweithio a gynhelir yn y Toyota Lean Management Centre, Glannau Dyfrdwy, CH5 2TW

ar 23 Mawrth 2023 (10:00am – 4:00pm) yn gyfle i glywed gan y cwmnïau sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen, yn ogystal â gan Aelodau Canolfan Rheoli Darbodus Toyota. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/rhaglen-clystyrau-darbodus-toyota

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru